## Tasg 1 (Heriol, sbardun 2)

| | |
|---|---|
| trigain namyn dwy o flynyddoedd yn ôl | 60 – 2 flynedd = 58 mlynedd yn ôl |
| mangre (b) | lle |
| estyn croeso | croesawu, rhoi croeso |
| rhagflaenydd | person ddaeth o flaen |
| Eich Uchelder Brenhinol | ffordd o gyfarch tywysog neu frenin Your Royal Highness |
| llanc | bachgen |
| cyffelyb | tebyg |
| datgan | cyhoeddi |
| balchder | teimlad balch |
| gwehelyth (g/b) | teulu |
| amodau | telerau |
| dwyster | cryfder |
| ymddiddori | dangos diddordeb |
| mwyfwy | mwy a mwy |
| dyheadau | gobeithion |
| lles | budd, mantais |

Nawr, gwrandewch ar araith Syr Ben Bowen Thomas eto, a llenwi'r bylchau yn y testun hwn. Efallai bydd rhaid gwrando sawl gwaith.

Trigain mlynedd namyn dwy o flynyddoedd yn ôl, yn y fangre hon, yng ....................... Caernarfon, estynnodd Syr John Rhys groeso Cymru gyfan i ragflaenydd Eich Uchelder Brenhinol, ac yntau'n llanc ..................... ar adeg ei arwisgo'n dywysog Cymru. A .................. ar achlysur cyffelyb, dyma estyn croeso'r un mor ..................... i chwithau, dywysog arall. Yr adeg .................., wrth ddatgan ei falchder fod yr arwisgo'n ................... ar dir Cymru, fe eglurodd Syr John y cysylltiad ................. a fu rhwng aelodau'r teulu brenhinol â Chymru, o ran gwehelyth, a chyfraniad i'w ................... Heddiw, da yw'r dystiolaeth ........... am ei barhad.

Mae amodau bywyd cymdeithasol wedi newid llawer er dechrau'r ..................... hon, a theimlodd Cymru, fel pob ..........................., ddwyster eu grym. Ond yn awr mewn dyddiau ........................, mae Cymru yn edrych ymlaen ................. gyfnod pan fydd Tywysog Cymru yn ymddiddori'n .................... fwyfwy yn ei phroblemau a'i dyheadau, ei .................... a'i thraddodiadau, a lles ei phobl.